RANDLES, EDWARD (1763 - 1820), telynor ac organydd dall

Enw: Edward Randles
Dyddiad geni: 1763
Dyddiad marw: 1820
Plentyn: Elizabeth Randles
Rhiant: Edward Randles
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: telynor ac organydd dall
Maes gweithgaredd: Cerddoriaeth; Perfformio
Awdur: Robert David Griffith

Ganwyd yn Wrecsam, 1763, mab Edward Randles, cigydd yn y dref. Dysgwyd ef i ganu'r delyn gan John Parry, Rhiwabon. Yr oedd yn chwaraewr medrus ar yr organ, a phenodwyd ef yn organydd eglwys Wrecsam yn 1788. Cyfeiria George Thomson, Edinburgh, ato yn ei ragymadrodd i'w gyfrol *Alawon Cymreig*, 1809, fel telynor rhagorol. Bu ef a'i ferch Elizabeth Randles yn canu o flaen Siôr III a'r frenhines Charlotte. Bu farw yn Wrecsam 23 Awst 1820.

Awdur

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

Ffynonellau

R. Griffith, *Llyfr Cerdd Dannau* (1913)

Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties, 1878

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732972

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu